

Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol – Cynhadledd Ddiogelu Genedlaethol 2026
Diogelu Oedolion: Cyfiawnder, Urddas a Llais

Rhaglen gyffredinol y gynhadledd

Agenda'r bore

09:45 | Cyflwyniad a chroeso — *Dave Street, Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol; Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol ar gyfer Llywodraeth Cymru*

09:55 | Cyflwyniad i'r Gweinidog

10:00 | Y Dirprwy Weinidog dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl ac Iechyd Menywod — *Llywodraeth Cymru*

10:10 | Rhethreg a Realiti: Diogelu oedolion yng Nghymru – o bryderu i weithredu credadwy — *John Williams, Aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol*

10:50 | Diogelu Oedolion yng Nghymru: Dysgu o'r system gyfan — *Kevin Barker, Arolygiaeth Gofal Cymru*

11:20 | Egwyl y bore

11:30 | Croeso'n ôl — *Dave Street, Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol*

11:35 | Yr Hawl i fod yn Ddiogel: Sicrhau cydraddoldeb i ddiogelu pobl hŷn yng Nghymru — *Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru*

12:15 | Y Cadeirydd yn cloi'r bore — *Dave Street, Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol*

Agenda'r prynhawn

12:45 | Croeso'n ôl — *Dave Street, Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol*

12:50 | Priodas Reibus – Trosedd Gudd — *Daphne Franks, Cymrawd Churchill*

13:25 | Y Tu Hwnt i Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid: Beth y gallai Cymru ei wneud? — *Yr Athro Lucy Series, Prifysgol Bryste*

14:05 | Egwyl y prynhawn

14:15 | Darparu gwasanaeth ar gyfer anafiadau nad ydynt yn ddamweiniol mewn oedolion sydd mewn perygl o niwed — *Dr Elisabeth Alton MB BS, M.A., Hon FFFLM Ymarfer Fforensig / Diogelu*

14:55 | Myfyrdodau wrth gloi: Data, Dysgu a Chyfeiriad Cenedlaethol — *Yr Athro Michelle McManus*

15:00 | Cloi'r gynhadledd

Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol – Cynhadledd Ddiogelu Genedlaethol 2026

Diogelu Oedolion: Cyfiawnder, Urddas a Llais

Rhaglen fanwl y gynhadledd

Agenda gyda chrynodebau o'r cyflwyniadau

Agenda'r bore

09:45 | Cyflwyniad a chroeso — *Dave Street, Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol; Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol ar gyfer Llywodraeth Cymru*

09:55 | Cyflwyniad i'r Gweinidog

10:00 | Y Dirprwy Weinidog dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl ac Iechyd Menywod — *Llywodraeth Cymru*

10:10 | Rhethreg a Realiti: Diogelu oedolion yng Nghymru – o bryderu i weithredu credadwy — *John Williams, Y Bwrdd Cenedlaethol*

Diogelu yw amddiffyn urddas, rhyddid a llais person yn ymarferol o ddydd i ddydd. Mae diogelu oedolion ar ei fwyaf effeithiol pan gaiff ei ystyried drwy lens hawliau dynol: cynorthwyo pobl i arfer eu hawliau, mynegi eu barn a chymryd rhan yn llawn mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae Cymru wedi creu fframwaith uchelgeisiol o gyfraith, dyletswyddau a llywodraethiant cenedlaethol. Y cam nesaf yw cydgysylltu'r cyfan er mwyn gallu dangos, yn gyson ac yn genedlaethol, bod diogelu'n gweithio i bobl. Bydd y sesiwn yn ystyried pum newid ymarferol nad ydynt yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd.

10:50 | Diogelu Oedolion yng Nghymru: Dysgu o'r system gyfan — *Kevin Barker, Arolygiaeth Gofal Cymru*

Beth y mae Cymru yn ei wybod am effeithiolrwydd ei system ddiogelu ar gyfer oedolion, a beth y dylem ei wneud nesaf?

11:20 | Egwyl y bore

11:30 | Croeso'n ôl — *Dave Street, Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol*

11:35 | Yr Hawl i fod yn Ddiogel: Sicrhau cydraddoldeb i ddiogelu pobl hŷn yng Nghymru — *Y Comisiynydd Pobl Hŷn*

Mae gan bobl hŷn yr un hawl â phob dinesydd arall i fod yn ddiogel, ond yn aml nid yw diogelu pobl hŷn yn mwynhau'r un amlygrwydd, yr un flaenoriaeth na'r un ffocws cenedlaethol ag agweddau eraill ar ddiogelu. Bydd y sesiwn hon yn archwilio beth sy'n gorfod newid yng Nghymru er mwyn sicrhau mwy o gydraddoldeb, sy'n cynnwys arweinyddiaeth genedlaethol gryfach, disgwyliadau cliriach o ran gweithredu, a dull mwy strategol o ymdrin â pholisi, cynllunio ac ymarfer.

12:15 | Y Cadeirydd yn cloi'r bore — *Dave Street, Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol*

Agenda'r prynhawn

12:45 | Croeso'n ôl — *Dave Street, Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol*

12:50 | Priodas Reibus – Trosedd Gudd — *Daphne Franks, Cymrawd Churchill*

Stori bersonol sy'n tynnu sylw at gamfanteisio, gorfodaeth a methiant systemau ar draws asiantaethau, gan ganolbwyntio ar ymwybyddiaeth a diwygio.

13:25 | Y Tu Hwnt i Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid: Beth y gallai Cymru ei wneud? — *Yr Athro Lucy Series, Prifysgol Bryste*

Mae dyfarniad diweddar gan y Goruchaf Lys wedi newid dealltwriaeth o amddifadu rhywun o ryddid a phedair blynedd ar ddeg o ymarfer gyda Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Bydd y sesiwn hon yn myfyrio ynghylch y rhesymeg dros Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, y gobeithion a'r dyheadau ar eu cyfer, a ffyrdd amgen o symud ymlaen er mwyn gwarchod hawliau dynol pobl sydd mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed. Bydd yn ystyried sut y gallai Cymru ddatblygu cynheiliaid a threfniadau diogelu newydd mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n adlewyrchu ymrwymiad neilltuol Cymru i gyfiawnder cymdeithasol ac arloesi ym maes cyfraith a pholisi iechyd a gofal.

14:05 | Egwyl y prynhawn

14:15 | Darparu gwasanaeth ar gyfer anafiadau nad ydynt yn ddamweiniol mewn oedolion sydd mewn perygl o niwed — *Dr Elisabeth Alton MB BS, M.A., Hon FFFLM Ymarfer Fforensig / Diogelu Crëwyd Prosiect Fforensig Humber yn dilyn adolygiad diogelu oedolion sylweddol, lle cafodd gŵr oedrannus anafiadau difrifol. Bu'r gwasanaeth amlddisgyblaethol yn gweithredu am bedair blynedd a chasglwyd data drwy gydol y cyfnod hwn. Bu Dr Caroline White a Dave Marsland o Brifysgol Hull yn gweithredu fel cyfeillion beirniadol i'r gwasanaeth, yn ogystal â darparu dau werthusiad o'r gwasanaeth, a ariannwyd yn garedig gan NHSE. Ochr yn ochr â hyn, mae Elisabeth wedi cyflwyno thesis i Brifysgol Teesside ar gyfer Doethuriaeth mewn Ymarfer Proffesiynol, sy'n edrych ar y sylfaen dystiolaeth ar gyfer anafiadau mewn oedolion sy'n agored i niwed.*

14:55 | Myfyrdodau wrth gloi: Data, Dysgu a Chyfeiriad Cenedlaethol — *Yr Athro Michelle McManus*
Dod â themâu allweddol ynghyd, gan amlygu bylchau o ran data, dealltwriaeth genedlaethol a'r camau nesaf.

15:00 | Cloi'r gynhadledd